

Tîm Prosiect Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd
Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
d/o yr Arolygiaeth Gynllunio
Eagle Wing 3/18, Temple Quay House
Temple Quay, Bryste
BS1 6PN

wylfa@planninginspectorate.gov.uk

At Sylw Mr Gareth Leigh

24 Rhagfyr 2019

Annwyl Mr Leigh

Prosiect DCO Wylfa Newydd: Ymateb i Gais yr Ysgrifennydd Gwladol am Ragor o Wybodaeth

Ysgrifennaf atoch ar ran Horizon Nuclear Power Wylfa Limited ("**Horizon**"). Yn dilyn llythyr yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud cais am ragor o wybodaeth a sylwadau gan bartïon â diddordeb (dyddiedig 23 Hydref 2019) ("**Llythyr y Cais**"), gweler yn amgaaedig ymatebion Horizon i Llythyr y Cais. Mae pedwar atodiad i'r ddogfen ymateb wedi'u hamgáu hefyd:


- *Atodiad 1:* Dogfen Manylion Cydsyniadau a Thrwyddedau Eraill wedi'i diweddarau (mae hon yn ddiweddariad o'r fersiwn blaenorol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod archwilio [REP6-017]);
- *Atodiad 2:* Cwestiynau Ysgrifenedig Pellach 2.5.7, 2.5.12 a 2.5.13 ([REP5-002]);
- *Atodiad 3:* Strategaeth Rheoli Tirwedd a Chynefinoedd wedi'i diweddarau, ynghyd â chymhariaeth yn erbyn y fersiwn blaenorol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod archwilio [REP6-017];
- *Atodiad 4:* Cod Ymarfer Adeiladu Wylfa Newydd wedi'i ddiweddarau, ynghyd â chymhariaeth yn erbyn y fersiwn flaenorol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod archwilio [REP8-064]).

Ar ôl derbyn Llythyr y Cais, ymgysylltodd Horizon ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan dderbyn galwadau a mynd i gyfarfodydd yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru, Cadw, Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd a chynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a'r RSPB.

Drwy ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn, cafodd Horizon gyfle i drafod statws presennol y materion a godwyd yn y Llythyr Ymateb (yn cynnwys y cynnydd a wnaed ers i'r Archwiliad ddod i ben) ac i gytuno ar faterion heb eu datrys, lle bo'n bosibl. Felly, mae ymatebion Horizon yn adlewyrchu'r

trafodaethau a gafwyd â rhanddeiliaid a'r materion pellach y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfnod hwn.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau derbyn ymatebion Horizon.



Duncan Hawthorne

Prif Swyddog Gweithredol Horizon Nuclear Power Wylfa Limited